

# Canllawia Arfer Da

## Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren

*Eich ffordd chi o gefnogi ein haber*



# Diben y canllawiau hyn yw annog defnydd cynaliadwy o’r aber a’i harfordir, yn cynnig amgylchedd gwell a mwy diogel at ddibenion hamdden ac ymweld.

## Helpwch ni i warchod yr aber arbennig hon.

ASERA

www.asera.org.uk

T: 02920 879 111 | E: severn@cardiff.ac.uk



# ASERA a Chynllun Rheoli Aber Afon Hafren

Mae sefydliadau o amgylch Aber Afon Hafren wedi dod ynghyd i ffurfio (ASERA) i gydlynu eu dyletswyddau statudol. Mae ASERA wedi nodi y gall rhai gweithgareddau hamdden effeithio ar yr adar, y rhywogaethau a'r pysgod a ddiogelir yn yr aber.

Nod ASERA yw codi ymwybyddiaeth o Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren a sicrhau y caiff y gweithgareddau a wna pobl o amgylch yr aber eu cynnal mewn ffordd sy'n sympathetig i amcanion cadwraeth natur y safle, gan sicrhau y caiff ei ddiogelu at dyfodol.

# Aber Arbennig Hafren



Aber Afon Hafren yw un o'r aberoedd gwastatir arfordirol mwyaf yn y DU. O ganlyniad i'w hystod lanwol a'i siâp twmffat clasurol, mae'n unigryw ym Mhrydain ac yn brin yn rhyngwladol. Mae'n ardal ddeinamig, amrywiol gyda nodweddion naturiol, diwylliannol a daearyddol rhyfeddol, a reolir ac a ddefnyddir gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion.

Mae'r aber yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau o bwys cenedlaethol a rhyngwladol ac yn llwybr mudo pwysig i eogiaid a physgod prin. Mae'r traethellau, heli a phorfeydd helaeth yn gwneud yr aber yn un o'r rhai pwysicaf yn y DU o ran nifer yr adar gwyllt ac adar ymdrochi, gyda thros 80,000 o adar yn ymweld dros y gaeaf. Mae hefyd yn lle pwysig i adar aros am gyfnod wrth fudo yn y gwanwyn a'r hydref. Mae creigiau sy'n gartref i'r mwydyn sy'n ffurfio tiwbiau, Sabellaria alveolata, hefyd i'w cael yma.

**Gan gydweithio gallwn leihau'r effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau Aber Afon Hafren a chadw ein safle'n arbennig.**

Gall nifer o bethau, o weithgareddau i sŵn, effeithio ar ymddygiad anifail (fel bwyta, ymlacio neu atgenhedlu) neu strwythur cynefin. Fel enghraifft, gall amharu cyson fygwth goroesiad adar yr aber. Gall arwain at atal adar rhag defnyddio ardal i fwyta neu nythu, defnyddio egni drwy eu hachosi i hedfan i ffwrdd ac achosi oedi wrth gyrraedd safleoedd. Os na allant fwyta digon i gwblhau'r daith fudo, mae'n bosibl na fyddant yn goroesi'r gaeaf.

Felly mae angen i unrhyw weithgareddau a wneir o amgylch yr aber a'i harfordir gofio am anghenion bywyd gwyllt, yn enwedig y miloedd o adar sy'n gaeafu yno bob blwyddyn. Mae'r aber yn arbennig o boblogaidd ar gyfer gweithgareddau hamdden felly gallwch chi wir wneud gwahaniaeth!

Helpwch ni i gadw ein harfordir yn lân, yn hardd ac yn llawn bywyd gwyllt.

# Safle Morol Ewropeaidd Aber Afon Hafren



## Mae Aber Afon Hafren o bwys rhyngwladol am ei chynefinoedd a'i rhywogaethau, a ddynodwyd yn:

- **Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau'r DU 2017 (fel y'u diwygiwyd) i ddiogelu adar sy'n treulio'r gaeaf yno ac adar ymfudol y gwanwyn/hydref, yn ogystal â'r cynefinoedd sy'n eu denu.

- **Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)** o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau'r DU 2017 (fel y'u diwygiwyd) i ddiogelu rhywogaethau pysgod ac amrywiaeth o gynefinoedd.

- **Safle Ramsar**
  Gwlyptir o bwys rhyngwladol.

*...fel y'u gelwir â'i gilydd, Safleoedd Morol Ewropeaidd (EMS)*

Mae Aber Afon Hafren yn rhan o rwydwaith safleoedd cenedlaethol. Mae'r safleoedd hyn yn ceisio rhoi pobl wrth wraidd cadwraeth natur ac maent yn ymwneud â "phobl a natur", nid "natur heb bobl".

Mae mapiau o'r rhywogaethau a chynefinoedd sensitif a geir yn Safle Morol Ewropeaidd (SME) Aber Hafren ar gael yn: **www.asera.org.uk**

# Cerdded, Cerdded Cŵn a Beicio



- **Cadwch at isddeddfau a rheoliadau ar hawliau tramwy**

- **Cadwch ar y llwybrau hawliau tramwy a ganiateir i osgoi erydu a cherdded dros gynefinoedd sensitif fel heli a chreigiau'r Sabellaria (llyngyr diliau)**

- **Dilynwch Gôd Ymarfer* Beicio Sustrans**

- **Gwaherddir cŵn rhag mynd i rai ardaloedd o arfordir Aber Afon Hafren dros yr haf – edrychwch allan am arwyddion lleol i gael rhagor o wybodaeth**

- **Peidiwch ag amharu ar fwynhad eraill o'r arfordir**
  - Glanhewch ar ôl eich ci i gadw'r arfordir yn lân a thaclus i eraill - "yn y bag, yn y bin".
  - Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol.

- **Cadwch reolaeth ar eich ci i ddiogelu bywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu ar yr arfordir**
  - Sicrhewch fod eich ci'n aros wrth eich ochr neu ar dennyn pan fo adar yn bwydo, yn bridio neu'n ymlacio.
  - Peidiwch â cholli golwg ar eich ci, a sicrhewch y daw'n ôl atoch yn brydlon wrth ei alw.
  - Mae'n arfer da cadw'ch ci ar dennyn pan o amgylch anifeiliaid fferm a cheffylau.
  - Peidiwch â chreu gormod o sŵn.

- **Cadwch gatiau ac eiddo fel y gwnaethoch ddod ar eu traws**

*www.sustrans.org.uk/our-blog/get-active/2019/everyday-walking-and-cycling/advice-on-using-shared-use-paths

# Gwylio Adar



**✔ Diogelwch adar sy'n bwydo, nythu a bridio drwy beidio ag amharu arnynt**

- Cadwch allan o olwg adar os gallwch a pheidiwch â mynd atynt, yn arbennig pan fo grwpiau'n ymgynnull pan fo'r llanw'n uchel. Mae'r llanw uchel yn adeg bwysig i adar orffwys - gallant adael ardaloedd nythu os cânt eu hamharu gormod.
- Defnyddiwch ysbienddrych/telesgop i wylio a mwynhau adar o bellter.
- Cadwch i ffwrdd rhag adar sy'n nythu - mae nifer o adar yr aber yn nythu ar dir agored.
- Byddwch yn amyneddgar - gadewch i'r adar ddod i arfer â chi yn eu hamgylchedd.

**✔ Diogelwch gynefinoedd**

- Cadwch at lwybrau dynodedig, peidiwch â cherdded ar heli gwlypach os gallwch ei helpu - mae'r rhai o'r ardaloedd hyn yn sensitif a gallant gael eu difrodi'n hawdd.

**✔ Cofiwch fod adar gwyllt yn Aber Afon Hafren**

**✔ Mwynhewch warchodfeydd natur enwog yr aber**

- Manteisiwch ar gyfleusterau fel cysgodfeydd fel y rhai yn Slimbridge, Gweunydd Steart a Gwlyptiroedd Casnewydd.

**✔ Dilynwch God Adarwyr* yr RSPB**

**✔ Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol**

*www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/birdwatching/the-birdwatchers-code/

# Pysgota Hamdden



**✔ Pysgota hamdden cyfrifol**

- Cofiwch wybod pa rywogaethau y caniateir i chi eu dal a'r cyfyngiadau maint lleol - rhaid dychwelyd pysgod rhy fach yn ôl i'r dŵr â gofal (meintiau isaf yma: www.devonandsevernifca.gov.uk).
- Peidiwch â glanio pysgodyn â bachyn. Defnyddiwch rwyd bob tro.
- Os ydych yn bwriadu bwyta pysgod a ddaliwch, rhaid eu lladd mewn ffordd gyflym a gweddus.
- Rhyddhewch neu dychwelwch bysgod yn gyfrifol, gan roi amser iddynt ddod yn ôl at eu hunain os oes angen.

**✔ Peidiwch â chyffwrdd llawer ar bysgod, yn ddelfrydol gwnewch â dwylo gwlyb neu fenig**

- Cofiwch bwyso, ffotograffu a dychwelyd pysgod yn fuan.

**✔ Diogelwch fywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu**

- Dilynwch lwybrau sefydledig.
- Cadwch draw o grwpiau o adar.
- Cerddwch o amgylch heli a chreigiau Sabellaria (llyngyr diliau).
- Cadwch eich ci dan reolaeth i ddiogelu adar sy'n bridio, bwyta a nythu.
- Torrwch linynnau'n fyr cyn eu gwaredu.

**✔ Parchwch eich diogelwch eich hun a diogelwch eraill bob amser**

- Cofiwch ddysgu amseroedd y llanw cyn gadael - cofiwch fod llanw Môr Hafren yn gyflym.
- Gweler y canllaw Diogelwch ar yr Aber.

**✔ Ewch â'ch holl wastaff a geriach adref â chi**

# Cloddio am Abwyd



✔ **Byddwch yn gyfrifol wrth gloddio am abwyd.**

- Peidiwch â mynd â mwy o fwydod nag y gallwch eu defnyddio.
- Peidiwch â mynd â gormod o lygwns nac abwyd gwyrdd. Bydd y rhain yn abwyd yn y dyfodol!
- Mae'r boblogaeth abwyd gwyrdd yn fwy bregus na'r lygwns - cofiwch adael digon o oedolion fel y gallant adfer, neu ystyriwch brynu abwyd gwyrdd.

✔ **Diogelwch fywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu**

- Dilynwch lwybrau sefydledig.
- Cadwch draw o grwpiau o adar.
- Cerddwch o amgylch heli a chreigiau Sabellaria (llyngyr diliau).
- Rhowch wybod am unrhyw ddeunyd archeolegol a ganfyddwch i'ch Swyddog Cyswllt Canfod lleol https://finds.org.uk/contacts.

✔ **Llenwch dyllau i gynnal y cynefin rhyng-lanwol ac er diogelwch eraill**

✔ **Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol**

✔ **Caniatâd - gallai fod angen caniatâd tirfeddianwyr ac eraill arnoch**

✔ **Dilynwch isddeddfau a rheoliadau lleol sy'n effeithio ar y defnydd o Aber Afon Hafren**

- Parchwch dir preifat.
- Nid oes hawl gyfreithiol i gasglu abwyd i'w werthu heb ganiatâd y tirfeddiannwr.

✔ **Er eich diogelwch chi**

- Cofiwch ddysgu amseroedd y llanw cyn gadael - cofiwch fod llanw Môr Hafren yn gyflym.
- Cofiwch am draethellau - gallech fynd yn sownd yno.
- Peidiwch â chloddio ar eich pen eich hun, a rhowch wybod i eraill yn lle rydych chi a phryd rydych yn disgwyl dychwelyd, ac ewch â ffôn â batri llawn â chi.
- Gweler y canllaw Diogelwch ar yr Aber.

# Hwylio Hamdden



- ✔ **Diogelwch adar sy'n bwydo, yn nythu neu'n bridio, a mamaliaid morol drwy beidio ag amharu arnynt**
- Peidiwch â gwneud gormod o sŵn a chadwch yn bell, yn arbennig wrth safleoedd nythu adar pwysig mewn cilfachau ac afonydd cysgodol.
- Mae rhai ardaloedd e.e. Bae Bridgewater, yn bwysig i adar ymdrochi sy'n bridio a hwyaid eithin sy'n bwrw'u plu ac na allant hedfan ac yn arbennig o sensitif i gael eu hamharu arnynt dros yr haf.
- Cadwch i ffwrdd o famaliaid morol sydd weithiau'n dod i'r aber.

✔ **Diogelwch gynefinoedd**

- Ewch at yr aber ar y llwybrau a defnyddiwch bwyntiau glanio a lansio cydnabyddedig.
- Cadwch at gyfyngiadau cyflymder ac arafwch wrth yrru wrth yr arfordir yn enwedig mewn peleni, cilfachau ac afonydd a ger angorfeydd. Gall amharu gormod ar y dŵr mewn rhai ardaloedd ddifrodi cynefinoedd ac amharu ar adar.
- Dewiswch angorfeydd yn ofalus, i ffwrdd o'r ardaloedd mwy sensitif fel gwellt y gamlas a chreigiau'r.

Sabellaria (llyngyr diliau). Bydd hyn yn helpu i ddiogelu bywyd gwyllt a llystyfiant, yn arbennig mewn dyfroedd bas a thros gynefinoedd rhynglanwol.

- ✔ **Rhannwch y dŵr - cofiwch am ddefnyddwyr eraill yn arbennig nofwyr a phlant yn y dŵr**
- ✔ **Peidiwch â thaflu sbwriel neu wastraff dros ymyl y cwch - rhowch ef mewn bin ac ewch ag ef adref â chi**
- ✔ **Cofiwch am ganiatâd – gallai fod angen trwyddedau ffyrdd ymadael neu ganiatâd arall**
- ✔ **Dilynwch ganllawiau The Green Blue i ddefnyddwyr cychod a chyngor ar ddefnyddio Cychod yn ddiogel yr RYA***
- ✔ **Dilynwch Chi, Eich Canŵ a'r Amgylchedd Morol****
- ✔ **Gweler canllawiau ar INNS a Diogelwch ar yr Aber**

*https://thegreenblue.org.uk/you-your-boat/

**www.britishcanoeing.org.uk/go-canoeing/access-and-environment/environment-good-practice

# Adar Gwyllt



- ✔ **Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau saethu adar gwyllt yn cael eu rheoli gan glybiau a chymdeithasau sy'n rhan o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)**

- ✔ **Dilynwch God Ymarfer BASC a rheolau'r clwb***

- ✔ **Mewn tywydd garw, gallai saethu adar gwyllt gael ei atal yn unol â gofynion y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a rheolau** BASC/y clwb**

- ✔ **Ceisiwch ganiatâd y tirfeddiannwr yn ôl yr angen**

- ✔ **Cadwch yn ddiogel, gall saethu adar gwyllt fod yn beryglus!**

- Cofiwch ddysgu amseroedd y llanw cyn gadael - cofiwch fod llanw Môr Hafren yn gyflym.
- Cofiwch am draethellau - gallech fynd yn sownd yno.
- Sicrhewch fod batri eich ffôn yn llawn.
- Rhowch wybod i rywun i le ydych chi'n mynd a phryd rydych chi'n disgwyl dychwelyd.
- Ewch allan gydag arweinydd profiadol yn gyntaf.
- Gweler y canllaw Diogelwch ar yr Aber.

- ✔ **I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau cysylltwch â**

- Consortiwm Clybiau Adar Gwyllt Aber Afon Hafren severnestuarywildfowlers@gmail.com.
- Cydgyngor Clybiau Adar Gwyllt De Cymru wentloogwildfowlers@gmail.com.

*www.basc.org.uk/cop

**Scheme to reduce disturbance to waterfowl during severe winter weather' https://jncc.gov.uk/our-work/severe-weather-scheme/

# Hamddena Awyr



Mae'r adran hon yn cynnwys gweithgareddau fel syrffio barcud a hedfan awyrennau model. Mae dronau yn cael eu trafod yn yr adran blaenorol.

✔ **Diogelu bywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu**

- Dilynwch lwybrau sefydledig.
- Cerddwch o amgylch heli a chreigiau Sabellaria (llyngyr diliau).
- Cadwch draw o grwpiau o adar.
- Cadwch at ardaloedd gweithgareddau dynodedig, a nodir ar arwyddion gwybodaeth neu gan yr Awdurdod Lleol i osgoi amharu ar adar a chynefinoedd.

✔ **Er eich diogelwch ar y traeth ac yn y môr**

- Cofiwch bob amser wisgo dillad amddiffynol priodol, yn dibynnu ar y gweithgaredd.
- Cofiwch am ragolygon y tywydd lleol a sicrhewch eich bod yn gallu delio ag amodau ar yr aber.
- I atal y risg o wrthdrawiad, cofiwch am reoliadau hawliau tramwy.
- Peidiwch â gosod rhaffau ar draws llwybr defnyddwyr eraill y traeth na lansio a gweithredu mewn ardal brysur.

✔ **Dysgwch a chadwch at reolau a chyfyngiadau lleol a thriniwch ddefnyddwyr eraill y traeth a'r arfordir - yn arbennig nofwyr a phlant yn y dŵr - â pharch**

✔ **Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol**

✔ **Gweler y canllawiau ar Ddronau i gael rhagor o wybodaeth am Ardaloedd Dim Hedfan**

✔ **Caniatâd- gallai fod angen caniatâd tirfeddianwyr ac eraill arnoch**

# Dronau



**✔ Dilynwch "God Dronau" * yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)**

- Cymerwch amser i ddeall y Drôn yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) a Chôd Awyrennau Model a Prawf Theori'r Awdurdod Hedfan Sifi. CHI sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am hedfan eich drôn bob tro.
- Sicrhewch fod gennych y dogfennau ar gyfer eich dosbarth o drôn a'r chategori hedfan. Gwnewch yn siŵr bod eich drôn wedi'i farcio gyda manylion adnabod y Gweithredwr a'i yswirio, fel sy'n ofynnol gan reolau'r CAA.
- Cadwch eich drôn yn y golwg bob amser. Gall fod yn anodd asesu pellter a chadw golwg arno dros yr aber. Rhaid bod gennych wyliwr os ydych yn hedfan o safbwynt y rheolwr (FPV).
- Peidiwch byth â hedfan drôn yn agos at faes awyr, hofrenyddion, awyrennau neu feysydd glanio.

**✔ Dylech ddiogelu bywyd gwyllt trwy osgoi tarfu arno.**

- Cadwch eich drôn yn bell o grwpiau o adar sy'n clwydo, yn bwydo neu'n bridio er mwyn osgoi gwneud i'r adar hedfan i'r awyr.
- Cadwch sŵn mor isel â phosibl, yn enwedig ger cornentydd ac afonydd cysgodol lle nad yw grwpiau o adar yn hawdd eu gweld, a pheidiwch â tharfu ar anifeiliaid sy'n pori ar dir amaeth.
- Wrth hedfan, cerddwch o amgylch cynefinoedd sensitif fel morfeydd heli a riffiau Sabellaria (tiwblyngyr y crwybr).

*www.dronesafe.uk

- Gwiriwch amserau'r llanw bob amser a chadwch lygad barcud ar lanw Aber Afon Hafren sy'n newid yn gyflym..

**✔ Mae Ardaloedd Gofod Awyr Cyfyngedig presennol yn Aber Afon Hafren yn cynnwys mannau o amgylch Hinkley, Berkeley ac Oldbury. Bydd angen caniatâd Hedfan Ansafonol arnoch gan y Gwasanaeth Traffig Awyr Cenedlaethol i hedfan yma.**

- Lawrlwythwch yr ap Drone Assist i gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch dronau.

**✔ Ni ddylid hedfan dronau â chamerâu:**

- Dros 400 troedfedd o uchder, neu
- O fewn 50m i berson, cwch neu adeiledd.
- Ystyriwch hawliau preifatrwydd unrhyw ddelweddau rydych chi'n eu recordio wrth hedfan y drôn.

**✔ Mae angen caniatâd y CAA ar gyfer pob hedfaniad masnachol ac unrhyw beth a ystyrir yn werth ychwanegol.**

**✔ Ewch â'ch holl sbwriel adref a chael gwared arno'n gyfrifol.**

**✔ I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau am Hamdden Awyr.**



# Astudiaeth Maes, Casglu Data a Theithiau Maes Addysgol

✔ **Diogelwch fywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu**

- Cadwch draw o grwpiau o adar.
- Dilynwch lwybrau sefydledig.
- Parchwch yr amgylchedd - cadwch at hawliau tramwy a ganiateir a lle y bo'n bosibl osgoiwch gamu dros gynefinoedd sensitif fel heli a chreigiau Sabellaria (llyngyr diliau).
- Cymerwch ffotograffau yn lle mynd â phethau adref.
- Gadewch lonydd i anifeiliaid a gwymon.
- Rhowch greigiau'n ôl yn eu lle.

✔ **Cofiwch ofyn am ganiatâd - gallai fod angen caniatâd tirfeddianwyr ac eraill arnoch**

✔ **Dilynwch brotocol iechyd a diogelwch y sefydliad at waith maes arfordirol**

✔ **Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol**

✔ **Cadwch yn ddiogel - chi sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun**

- Cofiwch ddysgu amseroedd y llanw cyn gadael - cofiwch fod llanw Môr Hafren yn gyflym.
- Cofiwch am draethellau - gallech fynd yn sownd yno.
- Sicrhewch fod batri eich ffôn yn llawn.
- Cofiwch am beryglon arfordirol.
- Gweler yr adran Diogelwch ar yr Aber.



# Marchogaeth

- **Diogelwch fywyd gwyllt a threftadaeth forol drwy osgoi amharu**
  - Cadwch yn bell o grwpiau o adar sy'n nythu, yn bwydo neu'n bridio, yn arbennig pan fydd y llanw'n uchel.
  - Cadwch at lwybrau ceffylau dynodedig, cilffyrdd a ffyrdd i beidio ag amharu ar fywyd gwyllt a chynefinoedd sensitif, yn enwedig heli a thwyni tywod.

- **Dilynwch unrhyw gyfyngiadau a rheoliadau amser lleol a thymhorol**
- **Rhowch ddigon o le i ddefnyddwyr eraill y traeth pan fyddwch yn marchogaeth**
- **Dilynwch Gôd Cymdeithas Ceffylau Prydain ar gyfer marchogaeth yn gyfrifol a sicrhau diogelwch ar y ffordd***
- **Cymrwch eich sbwriel adref â chi, neu ei waredu'n gyfrifol**

*www.bhs.org.uk

# Diogelwch ar yr Aber




## Cynlluniwch a Byddwch Barod!

✔ **Darllenwch amseroedd y llanw a rhagolygon y tywydd cyn mynd i'r arfordir***

- Cofiwch pa mor gyflym y mae'r llanw'n symud yn Aber Hafren.
- Cadwch yn ddiogel ar y traethellau - mae'r risg o fynd i drafferth yn un wirioneddol.
- Gall amodau newid yn gyflym, felly peidiwch â bod ofn troi'n ôl.
- Cofiwch am y cerrynt cryf.

✔ **Dewch â ffôn â batri llawn â chi a rhowch wybod i eraill yn lle rydych chi a'r amser rydych yn disgwyl dychwelyd**

✔ **Cadwch at wybodaeth ac isddeddfau diogelwch y traeth lleol**

✔ **Gwisgwch ddillad addas - gall fod yn fwdlyd - ac yn oer!**

✔ **Dynodir dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE i ddiogelu pysgod ac amrywiaeth o gynefinoedd**

✔ **Dylech wybod sut mae cysylltu â'r gwasanaethau brys cyn i chi fynd i'r môr**

- Ffoniwch 999/112 mewn argyfwng a gofynnwch am 'Wylwyr y Glannau' neu'r 'Heddlu' os nad ydych ar yr aber ei hun.

*Mae amseroedd y llanw yma www.ukho.gov.uk/easytide
*Ewch i wefan y Swyddfa Dywydd neu defnyddiwch yr app i weld y tywydd lleol

# Rhywogaethau Estron Ymledol (INNS)



Rhywogaethau ymledol yw'r rhai sydd wedi'u cyflwyno i amgylchedd y tu allan i'w gwlad frodorol neu gynefin naturiol. Gall INNS drechu a manteisio ar blanhigion ac anifeiliaid brodorol, yn ogystal â blocio peiriannau cychod, cyfyngu dyfrffyrdd a lledaenu heintiau. I leihau'r effaith niweidiol ar y rhywogaethau hyn cofiwch **Wirio**, **Glanhau** a **Sychu**:

## ✔ Chwiliwch

- Y cwch, eich offer a'ch dillad rhag ofn bod planhigion neu anifeiliaid ynddynt.
- Yn benodol, chwiliwch llefydd tamp neu sy'n anodd cael atynt (e.e. seliau esgidiau a semau esgidiau pysgota).

## ✔ Glanhewch

- Glanhewch a golchwch yr offer â dŵr croyw (a defnyddiwch ddŵr poeth yn ôl yr angen) ar y safle a defnyddiwch driniaeth gwrth-ymgasglu bob blwyddyn.
- Esgidiau ac offer a ddefnyddir (e.e. rhwydi pysgota) ar ôl bod allan ar Fôr Hafren.
- Gwaredwch ymgasgliad ar y cwch a'i roi'n y bin, nid yn ôl yn y dŵr.
- Golchwch yr angor a'r gadwyn cyn gadael angorfa.
- Defnyddiwch eich cwch i atal ymgasglu.

## ✔ Sychwch

- Draeniwch ddŵr o bob rhan a all ddal dŵr, gan gynnwys unrhyw ymgasgliad yn y tyllau sbydu.
- Peidiwch â chludo dŵr i rywle arall.
- Dylai dillad ac offer gael eu sychu'n drylwyr am ba hyd y gallwch cyn ei ddefnyddio'n rhywle arall.

### Gweithredu – Beth os gwelwch chi INNS?

Os gwelwch, neu amheuwch, fod INNS yn bresennol, cymrwch ffotograff a chofnodwch:

1) Enw'r rhywogaeth
2) dyddiad y gwnaethoch ei gweld
3) Yn lle gwelsoch chi hi

Ymhlith yr INNS yn ardal yr aber mae cregyn gleision rhesog, berdys rheibus, crancod manegog Tsieina a llysiau'r dial. **Rhowch wybod amdanynt i**: www.brc.ac.uk/irecord/enter-non-native-records



# Saith Lle i fynd ar lannau Môr Hafren

1) Mwynhewch weld bywyd gwyllt rhyfeddol yn agos yng Nghanolfan Gwlyptir Slimbridge WWT

2) Hafan i fywyd gwyllt ar ochrau'r ddinas yng Ngwarchodfa Gwlyptir Casnewydd

3) Ewch i Ynys Echni am ddiwrnod o fywyd gwyllt a chrwydrwch ei threftadaeth naturiol a diwylliannol rhyfeddol

4) Gwyliwch ffenomen naturiol Eger Hafren rhwng Awre a Chaerloyw

5) Crwydrwch arfordir Lloegr rhwng dwy bont Hafren i weld y rhywogaethau o rydwyr a hwyaid yma


6) Crwydrwch bier naturiol â chlogwyni dramatig yn Brean Down yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

7) I fynd ar ymweliad gwlyptir gwyllt ewch i Gweunydd Steart WWT - mae'n un o warchodfeydd gwlyptir mwyaf y DU

## Cyfrannwch at gadw Aber Afon Hafren yn arbennig

- ✔ Peidiwch â gadael eich ôl, ewch â'ch sbwriel adref
- ✔ Ymunwch â sesiynau pigo sbwriel rheolaidd Litter Free Coast a Sea Somerset
- ✔ Cyfrannwch at #2minutebeachclean: https://beachclean.net/boardsmap
- ✔ Gwirfoddolwch â'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, yr RSPB neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- ✔ Ymunwch ag ymgyrch "Beachwatch" y Gymdeithas Cadwraeth Forol: www.mcsuk.org/beachwatch/

# Safle Morol Ewropeaidd




**Trowch i'r dudalen olaf am fanylion am saith lle anhygoel i ymweld â nhw ar Aber Afon Hafren a sut i helpu i'w gadw'n lle mor arbennig.**

Cydnabyddiaeth y ffotograffau: Natural Resources Wales, Azmath Jaleel, Adrian Plant, Severn Estuary Partnership, Nigel Phillips, Devon and Severn IFCA, Clevedon Sailing Club, Wentloog Wildfowlers, Luke Maggs, Island Board Shop, John Coleman, Ruth Livingstone, Adrian Plant.